*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **13 Mai 2019** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Tracey Williams, Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol 01745 535285** |
| Pwnc | **Strategaeth ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Cynllun Gwella a Llesiant Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru 2020/21** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Amlinellu cynigion ar gyfer ymgynghoriad yr Awdurdod â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill yn 2019 fel rhan o'r broses o ddatblygu ei Gynllun Gwella a Llesiant 2020/21.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Tân ac Achub (ATA) gyhoeddi amcanion llesiant, a chynnwys y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill yn y broses o ddatblygu'r amcanion hynny.

3 Mae'r ymgynghoriad hwn ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd yn amlinellu'r ffordd y gall yr ATA wahodd sylwadau a barn am ddatblygiad ei Gynllun Gwella a Llesiant 2020/21 cyn i'r Cynllun hwnnw gael ei fabwysiadu'n ffurfiol a'i gyhoeddi ym mis Mawrth 2020.

**ARGYMHELLION**

4 Bod yr Aelodau'n cefnogi'r strategaeth ymgysylltu ac ymgynghori sy'n cael ei hamlinellu yn yr adroddiad hwn i'w chyflawni rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2019.

**CEFNDIR**

5 Dan y ddeddfwriaeth berthnasol, mae'n ofynnol i'r ATA osod amcanion gwella iddo'i hun. Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r amcanion hynny, a tra maen nhw'n dal i gael eu creu, mae disgwyl i'r ATA ganiatáu amser i unrhyw un sydd â diddordeb allu cyflwyno ei farn am y mater. Ystyrir bod y broses ymgysylltu ac ymgynghori yn elfen bwysig o'r gwaith o lunio'r amcanion drafft cyn iddynt gael eu mabwysiadu.

6 Er nad oes rheolau llym am hyd cyfnodau ymgynghori, ystyrir bod 12 wythnos yn ddigon yn y rhan fwyaf o achosion.

7 Rhaid i ymgynghoriadau cyhoeddus gael eu cynnal mewn modd teg gyda meddwl agored, gan roi digon o esboniad er mwyn i bobl allu ystyried ac ymateb mewn modd deallus.

8 Yna, rhaid i'r ATA fynd ati'n ymwybodol i ystyried ffrwyth yr ymgynghoriad cyn i'r cynigion gael eu mabwysiadu'n ffurfiol.

**GWYBODAETH**

9 Nod y strategaeth hon yw cynnal ymgynghoriad cyhoeddus rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2019. Bydd hyn yn digwydd ar ôl i'r ATA fod yn ystyried ei fwriad ar gyfer 2020/21 yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2019.

10 Mae'r strategaeth hon yn cynnwys yr agweddau canlynol:

- dadansoddi'r rhanddeiliaid er mwyn canfod pwy i ymgysylltu â nhw ac er mwyn helpu i benderfynu ar y dull mwyaf priodol o ymgysylltu â'r bobl dan sylw;
- mabwysiadu amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu er mwyn annog cyfranogiad eang ac ymateb gan randdeiliaid;
- defnyddio'r ymgynghoriad fel cyfle i godi ymwybyddiaeth am yr amrediad eang o wasanaethau sy'n cael eu darparu gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac am yr agweddau amrywiol ar ei waith;
- osgoi iaith sy'n anodd i'w deall, ac esbonio'n glir a pheidio â gor-gymhlethu.

11 Rhagwelir y bydd y strategaeth hon yn cynnwys:

- ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill drwy wefan y Gwasanaeth, datganiad i'r wasg a'r cyfryngau cymdeithasol;
- cwrdd â'r cynghorau sir i dynnu sylw at waith Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac i esbonio beth yw'r rhesymeg dros ddatblygu Strategaeth Amgylcheddol yng nghyd-destun ei rwymedigaethau corfforaethol a'i effeithiolrwydd gweithredol.
- annog sefydliadau sy'n bartneriaid i ni a gwasanaethau brys eraill i godi ymwybyddiaeth am ymgynghoriad yr ATA.

12 Bydd canlyniad yr ymgynghoriad yn cael ei cyflwyno i'r Panel Gweithredol ym mis Hydref 2019 gyda'r bwriad o roi sylw dyledus i'r ymateb wrth osod y gyllideb ar gyfer 2020/21 ym mis Rhagfyr 2019 ac eto wrth lunio Cynllun yr ATA ar gyfer 2020/21, i'w gyhoeddi cyn diwedd mis Mawrth 2020.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn golygu bod goblygiad uniongyrchol i'r gwaith o fynd ynglŷn ag amcanion llesiant tymor hir yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Bydd cost y strategaeth yn cael ei thalu o'r gyllideb cyfathrebu corfforaethol ar gyfer eleni. |
| Cyfreithiol | Yn cefnogi cydymffurfiaeth â deddfwriaeth cynllunio gwelliannau a llesiant. |
| Staffio | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau uniongyrchol i lefelau staffio. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Wrth gyfathrebu – yn ddwyieithog, yn Gymraeg a Saesneg – gyda'r cyhoedd, mae'r holl nodweddion gwarchodedig yn cael eu hystyried gydag, er enghraifft, crynodeb haws i'w ddarllen o'r hyn sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad, y gallu i 'wrando' ar wybodaeth ddwyieithog ar wefan y Gwasanaeth. Mae grwpiau sy'n cynrychioli'r holl nodweddion gwarchodedig wedi'u cynnwys yn y rhestr ddosbarthu i randdeiliaid yr ymgynghoriad. |
| Risgiau | Byddai methu ag ymgynghori yn unol ag Egwyddorion Gunning yn golygu y gallai penderfyniadau'r ATA fod yn destun her gyfreithiol yn pen draw. |